

Amser codi llais a gweithredu!

Mentrau cydweithredol menywod ym Melaky yn dweud eu dweud.

Arian i Fadagascar

33fed Adroddiad Blynyddol

2018 – 2019

"Galluogi pobl Madagascar i leihau tlodi a gwarchod yr amgylchedd trwy gynlluniau cynaliadwy dan arweiniad cymunedau."

Rhagair



DYMA'R AMSER i ymladd tros fio-amrywiaeth a mynd i'r afael â newid hinsawdd!

Mae angen brys i'r blaned warchod bioamrywiaeth a chynyddu maint fforestydd brodorol. Mae gwaith AiF ym Madagascar yn bwysicach nag erioed. Trwy gydglymu degawdau o brofiad gydag ymchwil newydd, rydym yn cefnogi cymunedau yn eu brwydr i ddatblygu ffyrdd o fyw cynaliadwy a gwydn a fydd yn bwydo'u teuluoedd ac adfer bioamrywiaeth fregus .

Nod AiF yw cyfrannu at gyrff cymunedol a'u galluogi i drawsnewid cymdeithas Madagascar a gwarchod bioamrywiaeth. Mae rôl allweddol gan bobl ifanc! Ers mwy na 30 mlynedd, mae AiF wedi buddsoddi i addysgu a meithrin plant a phobl ifanc fregus Madagascar. Mae'r argyfwng hinsawdd eisoes yn peryglu

Dyma'r amser i godi llais a gweithredu, cyn iddi fynd yn rhy hwyr!

Mae AiF nawr yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Rhaglen Ieuenctid i Arwain a Galluogi, er mwyn rhoi llais i bobl agored-i-niwed ym Madagascar sydd eisiau gwrthwynebu tlodi ac achub eu hamgylchedd fregus.

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, cewch gipolwg gyffredinol ar waith AiF. Ewch i'n gwefan www.moneyformadagascar.org a'r cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf am eich hoff brosiectau, yn ogystal ag am ddigwyddiadau sydd i ddod a chyfleoedd gwirfoddoli. Er mwyn cyfranogi, cysylltwch â ni drwy'r

A wnewch chi 'Roi Tro ar Dro'?

Dathlodd ein Hymddiriedolwraig ddiwyd, Theresa, ei 80fed pen-blwydd trwy gerdded 80+ milltir Mur Hadrian, gan godi mwy na £6000 o nawdd i AiF!

Dyma eich cyfle i gymryd rhan! Yn haf 2021, byddwn yn cynnal 3 thro hardd - cyfle gwych i gael hwyl, i gwrdd â rhai o gefnogwyr eraill AiF a chodi arian annibynnol ar gyfer prosiectau hanfodol. Ymunwch â thro trwy'r wefan neu e-bost, neu gwnewch adduned i noddi rhywun!

Diogelu a Galluogi Plant Agored I Niwed

Mae'r rhaglen hon yn trawsnewid bywydau plant agored i niwed yn y brifddinas a'r cyffiniau. Caiff plant sy'n amddifad, sâl, digartref neu wedi'u cam-drin loches, bwyd, gofal iechyd, addysg, dŵr, hylendid, gofal cariadus a chymorth tymor hir i'w helpu i oresgyn achosion eu cyni.

Trwy'r rhaglen, mae AiF yn cefnogi 10 prosiect plant: Akany Avoko Ambohidratrimo, Akany Bevalala, Akany Avoko Faravohitra, Ankizy Gasy, Akany Hasina, Akany Zaza Vavy, plant stryd Andavamamba-Isotry, Canolfan Gilpin i blant stryd ag angen gofal iechyd preswyl, Canolfan Ddydd ac Ysgol Fihavanana i blant stryd ac Adain Ieuenctid Carchar Toamasina. Mae tua 800 o blant yn elwa bob blwyddyn.

Noddwch Plentyn!

Noddi plentyn yw un o'r ffyrdd mwyaf amlwg i'n cefnogwyr greu newid parhaol yn wyneb tlodi blinderus Madagascar.

Gall roi boddhad mawr i noddi plentyn ar eu taith, gan roi cyfle gwerthfawr iddyn nhw gael y maeth, addysg, cefnogaeth a gofal iechyd angenrheidiol. Gall eich cymorth godi plentyn o bwll anobaith a chynni a rhoi gobaith a chyfle iddyn nhw lwyddo

Yn yr 20 mlynedd ers i AiF ddechrau cefnogi noddi plant, cawsom y pleser a'r fraint o ddilyn llawer ar eu taith o dlodi a breguster eithriadol i ennill cymwysterau, cael swyddi a sicrhau eu hannibyniaeth. Diolch i'r holl noddwyr a roddodd hwb i blentyn gael bywyd newydd.

Gall noddi roi budd mawr i'r noddwr hefyd, trwy dderbyn newyddion cyson a gwylio eich plentyn yn ffynnu.

Byddai'n wych gallu helpu rhagor o blant i gael noddwyr. Mae gan ein partneriaid AAA, AAF ac Ankizy Gasy oll blant sydd ag angen nawdd nawr. A allech chi helpu plentyn amddifad, plentyn ag anghenion ychwanegol, plentyn sy'n gweithio ac yn methu â fforddio mynd i'r ysgol, neu berson ifanc addawol a allai arwain ac sydd angen addysg neu hyfforddiant pellach i ddod yn lladmerydd i'w cymuned? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag AiF. Gallwch gyfrannu'r hyn a allwch.

Coedwigoedd a Chynnal Bywoliaeth

Dyma raglen, gyda phedwar prosiect, sy'n ymestyn o Orllewin sych Madagascar i goedwigoedd glaw'r Dwyrain sydd dan fygythiad mawr. Gall addysg, hyfforddiant a chymorth ymarferol alluogi ffermydd a phobl y coedwigoedd i gynnal teuluoedd a gwarchod ac adfer yr amgylchedd bregus. Mae sylw mawr nawr ar Sicrwydd Bwyd a Gwytnwch rhag Newid Hinsawdd yn ogystal ag ar gymorth ychwanegol i alluogi cymunedau bregus i warchod bioamrywiaeth unigryw Madagascar.

Yn **Andasibe-Matadia**, mae gwaith brys i achub y lemwr Indri-Indri a channoedd o fathau eraill o greaduriaid a phlanhigion unigryw. Eleni, yn ddigywilydd, rydym wedi codi pris pob coeden i £5! - yn ogystal â phlannu rydym yn ADFER COEDWIGOEDD GLAW. Caiff coed a blennir gydag AiF a Mitsinjo eu tyfu o hadau brodorol, eu plannu, eu cynnal a'u gwarchod. Mae cymysgedd gytbwys, gymharus o 60 o rywogaethau brodorol yn hybu adferiad ecosystemau lleol. Arweiniodd ymgynghori yn 2018 at weld angen am weithgareddau cynnal bywoliaeth newydd a fyddai'n gwarchod coedwigoedd trwy wella incwm ac addysg cymunedau'r coedwigoedd. Felly'r bwriad yw dechrau yn 2019-20 ar raglen cynnal bywoliaeth newydd i gydredeg â'r rhaglen ailgoedwigo.

Yn Betampona caiff teuluoedd bregus sy'n byw ar ymyl Gwarchodfa Betampona hyfforddiant mewn amaeth gynaliadwy, garddwriaeth, tyfu coed a magu pysgod i'w galluogi i greu incwm a gwarchod coedwigoedd cysefin. Mae gwaith AiF yn allweddol i ddiogelu Gwarchodfa Betampona. Mae'r gornel unigryw hon o fioamrywiaeth dan bwysau cynyddol oherwydd tywydd eithafol, cynnydd mewn tlodi a chloddio direolaeth. Rhaid cyrraedd rhagor o ffermwyr bregus yn gyflym i'w helpu i ddatblygu ffyrdd cynaliadwy o fyw sy'n amddiffyn eu teuluoedd a'r goedwig y maen nhw'n dibynnu arni. Mae angen cyllidwr ar frys i sbarduno'r cam nesaf o waith yn Betampona.

Ym **Melaky**, mae mudiad cydweithredol menywod FIVEMI bellach yn cynnal mwy na 150,000 coeden a blannwyd ganddyn nhw ac AiF tros 10 mlynedd. Mae potensial yn yr ardal ddiffaith hon am ragor o goed. Yn ogystal â buddsoddi yn eu coedwig, mae menywod FIVEMI'n rheoli cronfa gylchol i gefnogi mentrau busnes menywod. Mae addysg ysgol amgylcheddol hefyd yn ffynnu. Bu'r pwmp dŵr yn ysgol Mafaijijo'n llwyddiant mawr, gan alluogi disgyblion i dyfu digon o lysiau i fwydo'u teuluoedd a rhagor i'w gwerthu.

Yn **Alasora**, mae ein prosiect Bywoliaeth Wydn yn galluogi ffermwyr i ailadeiladu eu bywydau ar gyrion gwledig Tana.

Collodd Ernestine ei chnydau yn sychder a llifogydd 2017. Bu raid iddi dynnu ei phlant o'r ysgol ac roedd hi'n anodd bwydo'i theulu. Gyda grant a hyfforddiant gan AiF-WTDM, llwyddcodd i ddarparu ar eu cyfer trwy fagu cwningod a ieir. Mae ei holl blant yn ôl yn yr ysgol ac mae'n helpu prentisiaid o ffermwyr i ddechrau trwy roi hyfforddiant ac anifeiliaid ifanc iddyn nhw.

Addysg i Fyw

Daw'r rhaglen hon ag addysg a gobaith i blant angof Madagascar, gan weithio gyda chymunedau gwledig anghysbell i ddarparu stafelloedd dosbarth, dŵr, toiledau, llyfrau, hyfforddiant athrawon, addysg amgylcheddol, gerddi cegin, ffreuturau ysgol ac ynni haul.

Mae 53 ysgol mewn 3 rhanbarth yn rhan o'r rhaglen gyfredol. Mewn partneriaeth gyda Sefydliad Asdum, nod AiF yw ychwanegu o leiaf 10 ysgol at y rhaglen bob blwyddyn. Byddem yn croesawu cyfleoedd cyllido a chydweithio miloedd yn rhagor o blant, sydd heb addysg ddigonol.

Nawr gall rhieni hefyd ddysgu darllen a sgrifennu!

Eleni, rydym wedi ychwanegu Llythrennedd Rhieni at ein pecyn Addysg i Fyw yn arbrawf mewn tair ysgol. Mae cefnogi rhieni'n allweddol wrth helpu plant i aros yn yr ysgol a llwyddo. Ar y cyfan, mae rhieni gyda gwell addysg yn ennill mwy i dalu ffïoedd ysgol. Maen nhw hefyd yn fwy abl i helpu eu plant gyda'u hastudio.

Gyda model 'Llythrennedd er mwyn Datblygu' cydnabyddedig, ein cam cyntaf oedd hyfforddi'r hyfforddwyr ac yna'u rhieni. Roedd y cwrs yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a sgiliau dechrau busnes. Llwyddodd 60 rhiant hapus i raddio gyda sgiliau byw newydd sy'n eu helpu i gynnal eu teuluoedd. Oherwydd y llwyddiant, gofynnodd rhagor am hyfforddiant. Rydym bellach yn chwilio am gyllid i ledu'r rhaglen i ragor o rieni ein hysgolion.

Adroddiad Cyllid 2018-19





Rydym yn falch o nodi bod incwm yn 2018-19 wedi codi o £75,000, sy'n gynnydd o 25% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd £64,000 o hwn yn incwm grant newydd ac £11,000 trwy fwy o roddion a gwario mwy ar anrhegion amgen gan unigolion. Cynyddodd grantiau i Fadagascar o £36,000. Arhosodd grantiau i'n Rhaglen Plant Agored i Niwed yn gyson, ond cododd ein grantiau i'r rhaglenni Coedwigoedd a Chynnal Bywoliaeth ac Addysg i Fyw i dalu am gynnydd mewn gweithgaredd. Gwelodd 2018-19 ragor o fuddsoddi yn ein gwaith Datblygu Rhaglenni, Cynyddu Capasiti, Monitro, Gwerthuso a Dysgu , sy'n cael ei gynnal gan ein Tîm ym Madagascar. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu ein partneriaid Malagasaidd i wella a chynyddu eu gwaith, gan gynnwys denu cyllid ar gyfer prosiectau ychwanegol at rai AiF.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018-19, roedd gan AiF £113,000 o asedau cyfredol net anghyfyngedig a £194,000 mewn buddsoddiadau moesol. Bwriad yr Ymddiriedolwyr yw gwario £60,000 o arian wrth gefn ar ddatblygu a gweithredu rhaglenni yn 2018-19.

Irenee Rajaona-Horne, Director **Eifion Griffiths, Honorary Treasurer**

Gallwch weld cyfrifon llawn AiF a rhestr o Ymddiriedolwyr a Noddwyr AiF ar wefannau AiF a'r Comisiwn Elusennau. Gallwch ofyn am gopïau papur o Swyddfa AiF.